# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 21 Medi 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Dyfodol Dysgu ac Addysgu Cymru

**C12 Leighton Andrews:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol ELWa? (OAQ37564)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddais ar 14 Gorffennaf y bydd ELWa yn cael ei gyfuno â Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 1 Ebrill 2006. Mae'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen er mwyn gweithredu'r penderfyniad hwn yn cael ei pharatoi. Mae prosiect ar y gweill i bennu sut y gwneir hyn. Mae cynrychiolwyr ELWa yn cymryd rhan lawn yn y gwaith hwn, a chyhoeddir manylion pellach pan fydd yr astudiaeth gwmpasu wedi'i gorffen.

### Gwasanaethau a Ddarperir gan Ysbytai Cymunedol

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynlluniau ei Lywodraeth ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan ysbytai cymunedol? (OAQ37577)

**Y Prif Weinidog:** Fel y nodwyd yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru', a gadarnhawyd yn yr 'Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol' a gynghorwyd gan Derek Wanless, cyflawnir gofal iechyd drwy fodel gwahaniaethol o wasanaethau ysbytai, gydag anghenion cleifion yn cael eu diwallu â gofal integredig, a chyda gwasanaethau yn cael eu darparu o fewn ystod o leoliadau fel y gellir ymateb orau i lwybrau gofal.

### Diogelwch yn y Gymuned yn Ne Caerdydd a Phenarth

**C14 Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch yn y gymuned yn Ne Caerdydd a Phenarth? (OAQ37570)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol ac asiantaethau allweddol eraill i ddatblygu a gweithredu strategaethau lleol sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau.

### Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus

**C15 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus? (OAQ37567)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cydnabod bod mwg tybaco yn yr amgylchedd yn risg mawr i iechyd y cyhoedd. Yr ydym eisoes yn gweithio ar gamau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater hwn ac mae'r Cynulliad wedi penderfynu mewn egwyddor i geisio'r pwerau i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Mae pwyllgor trawsbleidiol yn cwrdd ar hyn o bryd i adolygu'r dystiolaeth ac i ymgynghori ar y mater hwn ar draws Cymru.